# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## Cofnodion (SC(3)-11-10)

**Dyddiad: 12 Mai 2010**
**Amser: 09.00 – 11.00**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rhodri Glyn Thomas, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Leanne Wood, Canol De Cymru
Brynle Williams, Gogledd Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Meriel Singleton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Ceri Davies, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Joanne Sherwood, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Morgan Parry, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Keith Davies, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Craig Mitchell, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Clive Thomas, Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Annie Smith, RSPB
Stephen Bladwell, RSPB

### 1: Ethol Cadeirydd dros dro

1.1 Agorodd y Clerc y cyfarfod a gofynnodd am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro. Etholodd yr aelodau Rhodri Glyn Thomas fel y Cadeirydd dros dro ar gyfer y cyfarfod.

### 2: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09.00 – 09.05)

2.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Daeth ymddiheuriadau i law gan Karen Sinclair, Joyce Watson, Irene James a Mike German. Mynychodd Rhodri Morgan ac Ann Jones y cyfarfod fel dirprwyon.

### 3: Craffu ar y Strategaeth Amgylcheddol: sesiwn dystiolaeth (09.05 – 9.45)

3.1.Croesawodd y Cadeirydd Ceri Davies, Joanne Sherwood, Morgan Parry a Keith Davies i'r cyfarfod a rhoddodd wahoddiad iddynt wneud sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r tystion a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth bellach am y canlynol:

A yw'r Strategaeth Amgylcheddol gyfredol yn addas i'r diben neu a oes angen ei hadolygu?

3.2 Cytunodd yr aelodau i ysgrifennu at y tystion gyda chwestiynau pellach na chafwyd amser i'w gofyn yn y cyfarfod.

### 4: Craffu ar y Strategaeth Amgylcheddol: sesiwn dystiolaeth (09.45 – 10.25)

4.1.Croesawodd y Cadeirydd Craig Mitchell a Clive Thomas i'r cyfarfod a rhoddodd wahoddiad iddynt wneud sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r tystion a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth bellach am y canlynol:

A yw'r Strategaeth Amgylcheddol gyfredol yn addas i'r diben neu a oes angen ei hadolygu?

4.2 Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am wybodaeth bellach gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y rhesymau pam fod y pum awdurdod lleol wedi gwrthod cymryd y grant sydd ar gael fel rhan o'r asesiadau mannau gwyrdd.

### 5: Craffu ar y Strategaeth Amgylcheddol: sesiwn dystiolaeth (10.25-11.00)

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Annie Smith a Stephen Bladwell i'r cyfarfod a rhoddodd wahoddiad iddynt wneud sylwadau agoriadol. Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r tystion a gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth bellach am y canlynol:

A yw'r Strategaeth Amgylcheddol gyfredol yn addas i'r diben neu a oes angen ei hadolygu?

5.2 Yn ogystal, cytunodd y tystion i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor i gefnogi'r awgrym nad yw'r gronfa weithrediadau na'r seilwaith allrwyd yn addas i'r diben.

5.3 Cytunodd Annie a Stephen hefyd i ddarparu gwybodaeth bellach i egluro a yw'r broses o fonitro'r rhywogaethau a'r safleoedd sydd mewn perygl yn unol â chynllun gweithredu'r Bartneriaeth Weithredu i Atal Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt wedi llwyddo i leihau'r troseddau yn erbyn bywyd gwyllt ac arafu'r broses o golli bioamrywiaeth.

### Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.37 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 6

Cynigiodd y Cadeirydd y cynnig, o dan Reol Sefydlog 10.37(vi), i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod, er mwyn trafod materion sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor.

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 6: Ystyried Adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar Les Anifeiliaid a Hylendid Cig

6.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad ar yr ymchwiliad i Les Anifeiliaid a Hylendid Cig.